

Pennaeth: Mrs Ceren Lloyd



01248
600375



Ffacs / Fax: 01248 600375

ebost/email : CerenLloyd@gwynedd.gov.uk

Mae'r llawlyfr hwn wedi ei gynhyrchu er mwyn cynnig peth gwybodaeth am yr ysgol i rieni/gofalwyr, gofalwyr, disgyblion a darpar rieni/gofalwyr, gofalwyr a disgyblion.

Nid yw'n cymryd arno bod yn holl gynhwysfawr ac mae posibilrwydd y bydd newidiadau yn digwydd na ellir eu rhagdybio.

Bwriedir ef yn ganllaw yn unig ac anogir chwi i drafod ei gynnwys (neu rywbeth y teimlwch sydd heb ei gynnwys) gyda'r Pennaeth a fydd yn fwy na balch o wneud hynny cyn belled â bod trefniadau i ymweld â'r ysgol wedi eu gwneud o flaen llaw.

Staff yr Ysgol 2017-18

Pennaeth – Mrs. Ceren Lloyd

Dirprwy bennaeth/Athrawes Blwyddyn 5/6 – Miss Laura Millican

Athrawes Blwyddyn 3 – Miss Ffion Jones

Athrawes Blwyddyn 4 – Miss Lisa Jones

Athrawes Blwyddyn 5/6 - Mrs Bethan Wyn Hughes

Athrawes Blwyddyn 6 – Mrs Llinos Morgan Jones

Cymhorthydd Dosbarth ac Addysg Arbennig –

Mrs. Debbie Jones,

Miss Caryl Griffith,

Mrs. Ceri Davies

Miss Rhian Wyn Morris

Mrs Ceri Owain

Miss Cadi Jones

Cogyddes – Mrs. Sandra Williams

Cynorthwydd – Mrs. Davina Evans

Cymhorthydd cegin – Mrs Donna Worrall

Gofalwraig – Mrs. Anwen Hughes

Cynorthwydd – Mrs Donna Worrall

Uwch Arolygydd Amser Cinio – Mrs. Anwen Hughes

Clerc Arian Cinio – Mrs. Anwen Hughes

Gweinyddwraig- Ms Ceira Wyn

Gwybodaeth Bwysig

Trefniadaeth yr Ysgol

Ysgol gynradd sirol (iau) yw'r ysgol hon. Mae'n ysgol ddyddiol, ddwyieithog gyd-addysgol.

Mae cysylltiad clos rhwng yr ysgol ag Ysgol Abercaseg a Dyffryn Ogwen. Trefnir cyd-drafod ac ymweliadau rhwng athrawon a rhieni/gofalwyr, yn enwedig cyn i blant drosglwyddo.

Mae pump dosbarth yn yr ysgol eleni:

Tryfan (7-8 oed), Carnedd (8-9oed), Glyder (9-11 oed), Glyder Fach (9-11 oed) ac Elidir (10-11 oed).

Y Sefyllfa Ieithyddol

Ysgol naturiol Gymraeg yw Ysgol Pen-y-bryn sydd yn dilyn canllawiau Polisi Iaith Gwynedd ac mae'r staff a'r disgyblion yn gweithio'n galed i gadw nawws ac awyrgylch Gymreig yr ysgol. Ni ddylai'r rhai ohonoch sydd â'ch plant yn ran o sefyllfa ddwyieithog am y tro cyntaf deimlo dan fygythiad na theimlo nad ydych chi'n perthyn. Efallai nad ydych chi'n siarad Cymraeg (er bod llawer o rieni/gofalwyr yn penderfynu dysgu'r iaith), ond gobeithiwn y byddwch yn parchu'r awyrgylch ieithyddol sy'n bodoli yma; awyrgylch sy'n cyfoethogi cymaint ym mhob ystyr ar brofiadau dysgu'r plant. Parchwn eich hawl chi i ddefnyddio'r iaith a ddewisir gennych, ac i'r diben hwnnw, bydd pob gohebiaeth o'r ysgol yn ddwyieithog.

Safle, Adeiladau a Thiroedd

Agorwyd yr ysgol yn 1937 ac mae ei chynllun wedi ei addasu gryn dipyn hynny.

Mae gan yr ysgol adnoddau da sy'n cynnwys:

1. Dosbarthiadau o faint rhesymol
2. Ystafelloedd arbennig gydag adnoddau ar gyfer celf, technoleg /technoleg bwyd a cherddoriaeth.
3. Neuadd ar gyfer Addysg Gorfforol, gwasanaethau a pherfformiadau
4. Llyfrgell gyfeirio safonol iawn
5. Iard chwarae eang gyda gemau/gweithgareddau wedi eu marcio ar y llawr a'r waliau.



ers

Polisi Derbyn

Bydd yr ysgol yn derbyn plant ym mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn saith oed a hynny'n unol â pholisi'r Awdurdod Addysg.

Fel arfer, bydd plant yn trosglwyddo i Ysgol Pen-y-bryn o Ysgol Cyfnod Sylfaen Abercaseg. Mae'r ddwy ysgol yn cyd-weithio'n glos iawn i sicrhau fod dilyniant naturiol wrth drosglwyddo o'r ysgol fabanod i'r ysgol iau. Bydd y plant yn ymweld yn achlysurol ac yn cael treulio cyfnodau byr a diwrnod yn yr ysgol cyn diwedd tymor yr haf. Mae prynhawn agored i'r rhieni a'u plant yn cael ei drefnu hefyd.

Oriau Dysgu

Mae'r oriau dysgu yn 24 awr yr wythnos.

Mae sesiwn y bore o 9.00 - 12.00 o'r gloch a sesiwn y prynhawn o 12:45 - 3:15pm o'r gloch.

Atgoffwn y rhieni/gofalwyr na ddylai'r plant gyrraedd tan wedi 8.50am.(arwahan i'r rhai sy'n dod i'r clwb brecwast am 8.15am-8.40am). Nid yw staff yr ysgol yn gyfrifol amdanynt tan 8.50am. Agorir y giatiau am 8.50am.



Mae o help garw os yw'r plant yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon. Fe fyddant yn cael eu cofnodi fel 'absennol ar ol i'r gofrestr gau' os byddant yn cyrraedd ar ôl 9.30 am.

Yn ystod amseroedd chwarae/cinio gwlyb bydd disgwyl i'r plant aros yn eu dosbarthiadau oni ddywedir yn wahanol.


Nid oes hawl gan blentyn i adael tir yr ysgol heb ganiatâd.

Yr Ysgol a'r Cartref

Cyfeiriad gwefan yr ysgol: www.ysgolpenybryn.org

Mae'r ysgol hon yn credu bod partneriaeth hapus ac agored rhwng yr ysgol a'r cartref yn holl bwysig.

Mae'r drws yn agored (ar ôl canu'r gloch!) i chwi rieni/gofalwyr i drafod gyda'r Pennaeth ar unrhyw adeg. Yn wir, anogir chwi i alw draw, er bod yn rhaid deall na chaiff athrawon dosbarth drafod gwaith disgyblion gyda rhieni/gofalwyr heb drefnu o flaen llaw â'r Pennaeth.



Yn ogystal ag ymweld yn unigol â'r ysgol, caiff y rhieni/gofalwyr hefyd gyfleodd ffurfiol ac anffurfiol dair gwaith y flwyddyn i weld neu drafod y gwaith a wneir yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn credu'n gryf mewn meithrin a datblygu doniau creadigol ac fe hyrwyddir hyn drwy gynnal cyngherddau a chystadlu mewn Eisteddfodau. Bydd yr ysgol bob amser hefyd yn gwneud ei gorau i gefnogi gweithgareddau lleol o'r fath.

Er nad oes gan yr ysgol gae chwarae, mae'r plant yn cael cyfle i ddefnyddio y cae aml bwrpas yn Ysgol Dyffryn Ogwen a'r adnoddau ym Mhlas Ffrancon yn ogystal ag adnoddau y Clwb Rygbi. Byddwn hefyd yn cymryd rhan yng nghystadlaethau rygbi, pêl-droed, pêl-rwyd, criced a rownderi, ym mabolgampau'r cylch a'r Urdd ac yn y gala nofio. Cynnigir sesiynau 'Campau'r Ddraig' i ddosbarthiadau yn eu tro yn ystod y flwyddyn.

Anogir chwi yn gryf i ymuno yn y gweithgareddau hyn, yn ogystal â'r gweithgareddau codi arian a drefnir gan amlaf gan Gyfeillion Ysgol Pen-y-bryn. Mae'n bwysig fod rhieni/gofalwyr yn sylweddoli gwerth perthynas onest ac agored rhyngddynt hwy â'r ysgol. Yr un nod sydd gan bawb yn y diwedd, y nod o ddarparu'r addysg orau posibl i'ch plant. Mae'r bartneriaeth yn hanfodol i lwyddiant ein nod, mae'n dibynnu ar gysylltiadau da a chydweithio rhwng y cartref a'r ysgol bob amser.

Ym mhob perthynas, bydd adegau pan geir gwrthdaro neu ansicrwydd, ac mae hyn lawn mor wir am berthynas yr ysgol/cartref. Fel ym mhob perthynas, y ffordd orau i ddatrys hyn fydd drwy sgwrs onest rhwng y ddwy ochr. Gall rieni/gofalwyr glywed sibrydion wrth gât yr ysgol neu dros baned o goffi neu yn y siopau. Ni all yr ysgol fod yn gyfrifol am fân siarad!

Yr ydym yn gwneud ein gorau o fewn adnoddau cyfyng iawn, yn arian a phobl, i adael i chi gael gwybod pob dim, bob amser, am yr holl ddatblygiadau a all effeithio ar addysg eich plentyn. Mae gwefan yr ysgol yn holl bwysig i chi felly er mwyn cael gwybodaeth ddiweddar am yr ysgol. O bryd i'w gilydd, fodd bynnag, mae'n debygol y bydd hanner gwir yn dechrau mynd ar gerdded o flaen datganiad swyddogol. Os bydd i chi glywed rhywbeth y tu allan i'r

ysgol nad ydych chi'n rhy sicr am ei ddilysrwydd, erfyniwn arnoch i gysylltu â'r Pennaeth am y fersiwn swyddogol.


Yn yr un modd, bydd ambell i blentyn yn adrodd pob math o fanylion personol dros ben am eu teuluoedd wrth yr athrawon. Troi clust fyddar i brepian o'r fath ydyw ein polisi ni, ond os bydd newid yn amgylchiadau'r cartref a allai effeithio ar berfformiad academiaidd neu ar ymddygiad eich plentyn yn yr ysgol, gofynnwn i chi roi gwybodaeth i'r Pennaeth mor fuan â phosibl (oddi allan i oriau ysgol os bydd rhaid). Gallwn eich sicrhau y bydd gwybodaeth o'r fath yn cael ei thrin yn ddoeth a'i chadw'n hollol gyfrinachol.

Amddiffyn plant/ Dioglewch Plant- petai unrhyw sylw gan blentyn/plant yn peri pryder am ddiogelwch unrhyw blentyn, mae polisi yr ysgol/ Gwynedd yn nodi y byddwn yn cychwyn prosesau cyfeirio yn syth.

Absenoldeb

Yn unol â rheolau'r Swyddfa Gymreig, mae'n rhaid i bob ysgol wahaniaethu rhwng absenoldeb awdurdodedig (salwch, ymweld â'r doctor a.y.b.) ac absenoldeb heb awdurdod.

Gofynnwn i chwi adael i'r ysgol wybod am bob absenoldeb drwy alwad ffôn neu ebost cyn gynted a phosib ar fore'r absenoldeb. Byddwn yn ffonio'r cartref i holi os na fyddwn yn cael eglurhad cyn 9.30am.



Caniateir i blentyn fynd ar wyliau blynyddol gyda'i rieni/gofalwyr (i fyny at **10 diwrnod ar hyn o bryd – cofnodir dyddiau ychwanegol fel absenoldebau anawdurdodedig**).

Mae taflen bwrpasol fwy manwl sy'n esbonio mwy am hyn ar gael yn yr ysgol.

Mae presenoldeb yn yr ysgol yn dda; dyma'r ffigyrau ar gyfer y dair blynedd ddiwethaf:

13/14- 95.3% 14/15 -95.1% 15/16 -95.4%

Gwaith Cartref

Fe roddir gwaith cartref yn rheolaidd i'r plant - ar ddydd Iau i bob dosbarth. Gall y gwaith fod yn dasg benodol, chwilio am wybodaeth, gorffen gwaith, holi am wybodaeth, darllen neu waith ychwanegol. Bydd yr athrawon yn ymateb i'r gwaith cartref yn y modd y maent yn deimlo sydd fwyaf addas i'r dasg.



Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi y cymorth gaiff y plant gyda'u gwaith cartref ac yn naturiol yn iaith y wers y bydd llawer o'r gwaith cartref yn cael ei osod. Ond, mae lle i'r plant weithio'n annibynnol hefyd a bydd llawer o'r gwaith cartref yn ddilyniant neu yn baratoad i waith dosbarth, nid oes angen i chwi boeni pan na fydd y gwaith hwn yn iaith y cartref – fe fydd eich plentyn yn gwybod beth i'w wneud !

Credwn yn gryf bod eich cyfaniad chi fel rhieni wrth gefnogi eich plant yn hanfodol i godi safonau.

Amser mynd adref

Cofiwch roi gwybodaeth i ni yn yr ysgol, ac i'r plentyn, os bydd unrhyw newid yn nhrefniadau arferol ar gyfer codi plant o'r ysgol.

Pan fydd teuluoedd yn chwalu, ac un o'r rhieni/gofalwyr yn cael gofal am y plant, mae'n bwysig ein bod yn cael gwybod am y trefniadau er mwyn osgoi sefyllfa annifyr.

Wrth gwrs ni ellir gadael y plant o'r ysgol yn gynnar onibai fod rhiant neu ofalwr yn cyrchu'r plant o'r ysgol neu fod y Pennaeth yn derbyn llythyr swyddogol yn rhoi caniatâd gan y rhiant/gofalwr.

Gwybodaeth

Rhoddir gwybodaeth am weithgareddau'r tymor i ddod yn 'Bwletin Pen-y-bryn' ond fe fydd adegau pan fyddwn yn anfon gwybodaeth trwy lythyr a 'text' i hysbysu'r rhieni/gofalwyr am ddiwyddiadau yn yr ysgol. Gofynnir yn garedig i chwi ddarllen pob gohebiaeth yn ofalus os gwelwch yn dda. Mae'n holl bwysig hefyd ein bod yn cael eich rhif ffon symudol cywir chi yn gyson.

Bydd yr holl ohebiaeth yn ddwyieithog.

Gwisg Ysgol

Mae gan yr ysgol hon wisg ysgol swyddogol. Teimlir bod gwisg ysgol yn arwain at feithrin balchder yn yr ysgol ac ymdeimlad o berthyn iddi.

Cofiwch roi enw'r plentyn ar y dillad ysgol.

Gwisg: crys 'polo' coch;
 crys chwys glas tywyll gyda logo'r ysgol;
 trowsus/sgert – du/glas/llwyd.

Mae'r wisg gyfan ar gael yn yr ysgol- drwy gwmni 'Dillad Difyr' sydd yng ngofal y disgyblion. Cynigir gwisg addysg gorfforol hefyd.

Er nad yw'r wisg yn orfodol mae'r ysgol yn teimlo bod adegau yn ystod y flwyddyn sy'n gofyn am wisgo gwisg ysgol – e.e. cyngerdd, eisteddfod, tynnu llun neu gynrychioli'r ysgol. Hyderwn eich bod yn cefnogi hyn.


Cinio yn yr Ysgol

Pris cinio ysgol ym Mis Medi fydd £12.50 yr wythnos, sef £2.50 y dydd. Gall hyn newid erbyn Mis Medi ac fe rown wybod am hyn i chi. Dylid talu'r arian o flaen llaw ar ddydd Llun mewn amlen gydag enw'r plentyn a'i ddsbarth yn glir arno. **RHAID TALU'N WYTHNOSOL.**

Os ydych yn derbyn Cymorth Incwm, caiff y plentyn ginio di-dâl. Does dim rhaid cael ffurflen gais gan yr ysgol erbyn hyn- mae'r system budd-daliadau yn rhoi gwybod i ni yn syth- ond mae'n rhaid gofalu bod y swyddfa budd-daliadau yn gwybod bod gennych blant yn yr ysgol.

Ni chymeradwyir newid o ginio ysgol i frechdanau (na brechdanau i ginio ysgol) yng nghanol wythnos. Os am newid o ginio i frechdanau **rhaid cael rhybudd drwy lythyr bythefnos o flaen llaw** gan fod y newid mewn nifer yn effeithio ar gyflogau y gweithwyr yn y gegin.

Bydd llythyrau neu decst yn gofyn am arian yn cael eu hanfon os na dderbyniwyd tâl am dros wythnos.



Gall y plentyn ddod â'i ginio ei hun os dymunwch, ond peidiwch ag anfon poteli gwydr na chaniau diod os gwelwch yn dda. Rydym hefyd yn hybu bwyta bocs bwyd iach- h.y dim mwy nac un siocled yn achlysurol! Rydym hefyd yn addysgu'r plant am fwyta'n iach yn yr ysgol i wneud y dewis cywir.

Amser Chwarae

Mae'r ysgol yn ceisio hybu 'Bwyta'n Iach' felly caniateir i'r plant ddod a rhywbeth iach i'w fwyta yn ystod amser chwarae (e.e. ffrwyth, caws). DIM DA DA! Caniateir iddynt ddod a photel blastig o **ddŵr** hefo nhw hefyd.

Crefydd

Nid yw'r ysgol hon yn dal cysylltiad uniongyrchol a ffurfiol ag unrhyw enwad crefyddol. Y mae'r addysg grefyddol a gyflwynir yn seiliedig ar faes llafur cydnabyddedig yr Awdurdod. Fe ellir gwneud trefniadau ar gyfer plant nad yw eu rhieni/gofalwyr am iddynt fynychu'r gwasanaethau crefyddol neu astudiaethau cyffelyb.

Addysg Bywyd a Pherthnasedd

Mae amcanion polisi Addysg Bywyd a Pherthnasedd yr ysgol fel a ganlyn:

'Ymdrinnir â'r pwnc yn rhan o raglen ehangach o addysg bersonol, a fydd yn cynnwys datblygu'r corff a meithrin agweddau cymdeithasol yn uned y teulu ac mewn cyd-destun ehangach.'

Cyfyngir addysg rhyw fel y cyfryw i:

- a. ateb cwestiynau'r plant yn onest;
- b. egluro proses blaenlencyndod –

Yn ogystal, fel rhan o Gynllun Ysgolion Iach ac ar gyfer cyrraedd disgwyliadau'r Cynulliad Cenedlaethol, rydym wedi datblygu'r polisi a'i weithredu yn llawnach hefo eich cyd-weithrediad chi yn ystod y flwyddyn.

Gwersi Offerynnol

Mae cyfle i'r plant gael gwersi offerynnol amrywiol. Yn ffodus mae cost gwersi yn rhesymol. Gan ein bod yn cyllido am y flwyddyn gallwch dalu am y flwyddyn gyda gostyngiad bach yn y pris i hwyluso'r trefniadau. **Ni chaniateir**

rhoi'r gorau i'r gwersi ynghanol y tymor.

Mae'r ysgol yn dibynnu llawer ar air yr athro teithiol cyn belled ag y mae cynghori pa blant i barhau/roi'r gorau i'r offeryn ar ôl y flwyddyn gyntaf.



Dylai pob plentyn fynd â'i offeryn adref ar ddiwedd dydd pan fydd gwrs offerynnol. Rhaid gofyn caniatâd y Pennaeth os am gadw'r offeryn yn yr ysgol dros nos.

Gwersi Nofio

Bydd pob dosbarth yn **derbyn cyfres o wersi nofio gorfodol** (ar gais Llywodraeth Cymru) am gyfnod penodol o wythnosau. Bydd y gwersi yn digwydd ar foreau Llun. Rhoddir yr un pwyslais ar y gwersi nofio a rown i weddill y cwricwlwm-credwn ei bod yn holl bwysig ein bod yn addysgu ein plant i gadw eu hunain yn ddiogel yn y dwr.

Ni chaniateir peidio ymgymrydâ'r gwersi.

Ceir cyfle i flwyddyn 6 ymgeisio am 'dystysgrif cwricwlwm' yn ystod y flwyddyn.

Gofynnwn am £3 o gyfraniad yn wythnosol at gostau teithio. Gellir talu am yr holl wythnosau o flaen llaw.



Disgyblaeth

Ceisio meithrin PARCH at ein gilydd ac at eiddo yw'n nod yn yr ysgol. Drwy wneud hyn gobeithir hybu hunan ddisgyblaeth ac felly ni fydd angen disgyblu. Rydym yn dilyn strategaeth 'Webster Stratton' sydd yn hybu rhoi sylw positif a chael gwared o ymddygiad negyddol. Rhoddir pwyslais cryf ar gael y plant i fod yn gyfrifol am eu gweithredoedd ac i ddeall fod canlyniad i bob gweithred.

Ond, yn anffodus, fe geir adegau pan fydd angen disgyblu unigolion, ac rydym yn dibynnu ar ddealltwriaeth a chyd-weithrediad y cartref yn hyn o beth. Ar hyn o bryd fe ddisgyblir plant drwy: drafod, ysgrifennu llythyr o ymddiheuriad a cholli amser chwarae a/neu ddigwyddiad.

Os bydd cam-ymddwyn difrifol wedi bod fe gysylltir gyda'r rhieni/gofalwyr i gael sgwrs. Bryd hynny byddwn yn penderfynu ar y cyd sut i ddisgyblu, e.e.siarth cartref ysgol, taflen ymddygiad, colli amser chwarae. Mae'r Polisi Disgyblaeth a Bwlio ar gael yn yr ysgol.

Diogelwch

Mae trefn ddiogelwch gadarn yn bodoli yn yr ysgol. Mae'r sefyllfa diogelwch yn dda iawn erbyn hyn ers i ni gael y gataiau, ffensys, clo digidol a'r gloch. Rhaid canu'r gloch yn y brif fynedfa i gael mynediad. Ceir asesiad risg ar gyfer pob sefyllfa lle mae diogelwch yn flaenoriaeth.

Trefn Gwyno

Mae'r Awdurdod Addysg Leol, yn unol â gofynion yr Ysgrifennydd Gwladol, dan Adran 23 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988, wedi sefydlu trefn ystyried cwynion am y modd y mae Cyrff Llywodraethu'r ysgolion a'r Awdurdod Addysg yn gweithredu mewn perthynas â chwricwlwm ysgol a materion eraill cysylltiedig. Mae'r drefn hon wedi ei hamlinellu mewn dogfen bwrpasol yn y Gymraeg a'r Saesneg sydd ar gael yn yr ysgol. Darperir copi'n rhad ac am ddim, yn ôl y gofyn, i unrhyw rieni sy'n dymuno gwneud cwyn dan y trefniadau, a gall yr Awdurdod ddarparu copi mewn iaith heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg os bydd hynny'n angenrheidiol.

Pwysleisir, fodd bynnag, y gellir ymdrin â llawer o gwynion yn gyflym ac effeithiol drwy ystyriaeth anffurfiol yn seiliedig ar drafodaethau gyda'r Pennaeth. Hwn yw'r cam rhesymol cyntaf, a bydd y Corff Llywodraethu'n disgwyl bod y cam yma wedi ei gyflawni cyn cyflwyno'r gwyn yn ffurfiol mewn achosion eithriadol.

Gweithgareddau Ychwanegol

Gobeithia'r ysgol sicrhau cyd-weithrediad a chefnogaeth y rhieni/gofalwyr gyda'r holl weithgareddau ychwanegol a drefnir. Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau o bryd i'w gilydd sy'n agored i'r holl ddisgyblion, **sydd ym marn y Pennaeth, yn aeddfed ac yn barod i gymryd rhan ynddynt.**

Ni all yr ysgol dderbyn cyfrifoldeb am oruchwylio plant ar derfyn unrhyw sesiynau clybiau/cymdeithasau, a gofynnir i rieni/gofalwyr sicrhau eu bod yn gwneud trefniadau i hebrwng eu plant adref.

Yr Urdd

Anogir holl blant yr ysgol i ymaelodi efo'r Urdd. O ymaelodi cânt gyfle i gystadlu mewn Eisteddfodau – llwyfan a gwaith cartref, cystadlu mewn mabolgampau, mynd i ddisgo'r Urdd, treulio penwythnos yng Nglan Llyn (Bl6) a chymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd dymhorol arall.



Codi tâl am weithgareddau ac ymweliadau

Ni chodir tâl am fynediad i'r ysgol nac am weithgareddau addysgol sy'n digwydd o fewn yr ysgol.

Wrth gynnal gweithgareddau ac ymweliadau yn naturiol mae yna gostau'n codi. Yn unol â pholisi'r ysgol cedwir yr hawl i:

- godu tâl am weithgareddau tu allan i oriau'r ysgol
- godu tâl am hyfforddiant offerynnol
- ofyn am gyfraniad tuag at gostau teithio, mynediad a.y.b.



Pan ofynnwn am gyfraniad bydd llythyr yn cael ei anfon atoch yn nodi'r gost. Cedwir yr hawl i ohirio neu ddileu unrhyw weithgaredd neu ymweliad os nad yw cyfanswm y cyfraniadau'n ddigonol.

Os bydd offer neu eiddo'r ysgol yn cael ei ddifrodi/torri gan unigolyn(ion) teimlwn mai teg yw cadw'r hawl i ofyn am arian i ddioglledu'r ysgol.

Eiddo Personol yn yr ysgol

Nid yw'r ysgol yn cymeradwyo dod ag eiddo personol i'r ysgol (e.e. stereos personol, gemau cyfrifiadur).

Ffonau symudol

Caniateir dod a ffonau symudol i'r ysgol, ond o dan yr amodau canlynol:

- a. bod ffurflen arbennig wedi ei llenwi a'i dychwelyd i'r ysgol;
- b. bod y ffôn yn cael ei gadw ar ddesg yr athro/athrawes o ddechrau'r diwrnod;
- c. nad yw'r ffon ymlaen nac yn cael ei ddefnyddio yn ystod oriau ysgol;
- ch. bod y ffôn yn cael ei ddefnyddio i gysylltu a rhieni/gofalwyr/teulu ar y ffordd adref yn unig.

Mae polisi cynhwysfawr sydd wedi ei chymeradwyo gan y Sir ar gael yn yr ysgol.

Cymdeithas 'Cyfeillion' yr ysgol

Mae'r gymdeithas gyfeillion wedi ei sefydlu yn yr ysgol ers rhai blynnyddoedd bellach. Hoffem feddwl bod y Gymdeithas yn cyflawni dwy brif swyddogaeth:

- 1) Codi arian ar gyfer yr ysgol (e.e. ffair, bingo, disgo, raffl)
- 2) Bod yn gyfrwng i'r rhieni/gofalwyr, y rhieni/gofalwyr newydd yn arbennig, i ddod i adnabod ei gilydd yn well.


Mae'r Cyfeillion wedi codi llawer o arian i'r ysgol a gallwn ddweud yn onest na fuasai gan yr ysgol adnoddau crystal heb eu haelioni.

Cynhelir Cyfarfod Blynnyddol y Gymdeithas yn fuan ar ol dechrau'r flwyddyn ysgol ym mis Medi. Mae croeso i bob un ohonoch i fod yn aelodau o'r gymdeithas hon. Byddwchystal â chefnogi'r Gymdeithas yn ei hymdrechion, a cheisio mynychu cymaint o gyfarfodydd ag y bo modd. Po fwyaf llwyddiannus y gall y gymdeithas hon fod, po fwyaf enillion i'r ysgol.


Rhai o weithgareddau'r Cyfeillion yn y gorffennol:



Taith Gerdded



Ffair 'Dolig



DISGO!



BINGO!

GWYLIAU YSGOL
2017-2018

TYMOR:

Hydref 2017 4 Medi 2017 - 22 Rhagfyr 2017
Gwanwyn 2018 8 Ionawr 2018 - 23 Mawrth 2018
Hâf 2018 9 Ebrill 2018 - 20 Gorffennaf 2018

GWYLIAU:

30 Hydref – 3 Tachwedd 2017 (Hanner-Tymor)
25 Rhagfyr 2017 - 5 Ionawr 2018 (Gwyliau'r Nadolig)
12 - 16 Chwefror 2018 (Hanner-Tymor)
26 Mawrth - 6 Ebrill 2018 (Gwyliau'r Pasg)
7 Mai 2018 (Calan Mai)
28 Mai – 1 Mehefin 2018 (Hanner-Tymor)
23 Gorffennaf - 31 Awst 2018 (Gwyliau'r Hâf)
Bydd yr ysgolion yn ail-agor ddydd Llun, 3Medi, 2018 i athrawon, a dydd Mawrth, 4 Medi i ddisgyblion

SUT Y GALLAF HELPŪ I HYBU ADDYSG FY MHLENTYN?

Dyma'r cwestiwn y bydd yr athrawon yn hoffi ei glywed fwyaf gan rieni/gofalwyr! Mae sawl peth y medrwch chi ei wneud, dyma rai cynigion isod:

1. Dangos i'ch plentyn fod gennych ddiddordeb drwy holi cwestiynau am yr hyn a wnaeth yn yr ysgol y diwrnod hwnnw. Peidiwch a thorri'ch calon os bydd yn troi'r stori ar y dechrau! Mae llawer o blant am gael mynd adref i anghofio am yr ysgol (fel finnau a'r athrawon weithiau!) ar peth olaf maent am ei gael gyda'u te ydyw dadansoddi gwaith y dydd, ac felly ceisiwch ddewis eich amser ac adnabod yr adegau hynny pan fydd arnynt eisiau siarad am yr ysgol.
2. Bwydwch nhw ar ddeiet o lyfrau da a llyfrau a rhagor o lyfrau hyd yn oed pan font yn fabanod, dylid magu plant i fwynhau llyfrau - nid yn unig fel ffynonellau gwybodaeth, ond er mwyn cael ynddynt straeon da a difyr a lliwgar, ac yn ddiweddarach enghreifftiau o grefftwaith o ran eu cynllunio a'u rhwymo. Ceisiwch gael eich plentyn i fagu'r arfer o ddefnyddio'r llyfrgell leol, ac o edrych ar ol llyfrau. Peidiwch â bodloni ar wrando ar eich plentyn yn darllen, ond ewch ati i ddarllen gydag ef hefyd, trafodwch y llyfr yr ydych yn ei rannu, a dysgwch iddo fod yn feirniadol o lyfrau. Peidiwch â chondemnio'r comics. Cofiwch ei bod hi'n llawer gwell gweld plentyn yn cael blas ar ddarllen comic nac yn peidio dangos dim diddordeb mewn darllen o gwbl ac mae cymaint o lwyddiant yn yr ysgol yn dibynnu ar y gallu a'r awydd i ddarllen.
3. Sicrhewch eu bod yn mynd i'w gwelyau yn ddigon buan yn ystod y tymor! Nid oes dim byd mwy digalon i athrawon na cheisio dysgu dosbarth o gysgaduriaid hanner effro.
4. Cofiwch fod disgyblaeth gan gynnwys hunan ddisgyblaeth, yn hanfodol, ac na ellir ei sicrhau yn yr ysgol ar ei phen ei hun. Cawn ei bod yn fwyfwy anodd cynnal disgyblaeth

wrth i'r blynyddoedd fynd yn eu blaenau, a daw'n amlycach na allwn wneud hynny ar ein pen ein hunain yma. Erfynwn arnoch i'n cefnogi yn ein hagwedd at ddisgyblaeth, ac yn y dulliau a ddefnyddir gennym i'w gynnal yn yr ysgol. Credwn mewn canmol a bod yn bositif er mwyn cael ymateb cadarnhaol yn ôl gan y plant.

5. SIARADWCH â'ch plant! Dydyw hyn ddim yn beth mor wirion â hynny i'w ddweud. Nid oes dim dwywaith amdani fod rhieni/gofalwyr yn gyffredinol yn tueddu i dreulio llai o amser yn siarad gyda'u plant nag yn yr hen ddyddiau. Mae plant yn llawer llai medrus yn eu sgil o wrando nag yr oeddynt (medr arall na ellir ei ddysgu gan yr ysgol ar ei phen ei hun). Mae'r byd o'u hamgylch yn cyffroi llai arnynt (os na welir ef ar y sgrin deledu) ac ymddengys eu bod yn llai galluog i gynnal sgwrs drefnus. Mae rhain i gyd yn fedrau sylfaenol, ond hanfodol y dylai pob plentyn eu meistroli.
6. Cymerwch ddiddordeb mewn addysg a phynciau addysgol. Cymerwch sylw o eitemau ar y cyfryngau, ac yn bwysicach na dim, dewch draw i fynychu cyfarfodydd yn yr ysgol lle cewch wybod wyneb yn wyneb sut yr addysgwn eich plant. Peidiwch byth â bod ofn holi am ein dulliau neu'n hadnoddau, na byth fod arnoch ofn sut y medrwch gynorthwyo'ch plentyn eich hun.

“Nid llestri i’w llenwi yw plant -
ond lampau i’w goleuo.” (Di-enw)

Cwricwlwm

Swyddogaeth yr ysgol yw meithrin ac annog datblygiad pob plentyn fel unigolyn ac fel aelod o gymdeithas. Fel unigolyn mae'n rhaid annog ei dwf corfforol, ymenyddol a moesol a rhoi cyfle iddo ddatblygu cymaint â phosibl. Mae'r plentyn yntau yn aelod o'r gymdeithas a rhaid iddo fod yn barod i chwarae ei ran yn y gymdeithas y mae'n rhan ohoni.

I'r diben hwn bydd cwricwlwm yr ysgol yn rhoi'r cyfle i bob plentyn feithrin sgiliau sylfaenol, siarad, darllen, ysgrifennu, gwrando, sgiliau mathemateg, sgiliau sy'n cynnig cyfle i astudio a dehongli'r amgylchfyd, rhoi'r cyfle i feithrin agwedd gymdeithasol iach a chymwynasgar, yn darparu profiadau amrywiol ac yn cynnig cyfleoedd i'w mwynhau.

Mae'n statudol o fewn gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol i bob plentyn astudio agweddau ieithyddol, mathemategol, gwyddonol, technoleg, dyniaethau (hanes a daearyddiaeth) y celfyddydau mynegiannol, addysg grefyddol, addysg bersonol a chymdeithasol ac addysg gorfforol. Gwireddir hyn yn yr ysgol hon drwy waith themâu sy'n cynnwys yr holl agweddau uchod tra'r un pryd yn gwneud y gwaith yn bleserus a phwrpasol i'r plant.

Defnyddiwn gyfuniad o ddulliau ffurfiol ac anffurfiol sy'n dibynnu ar natur y gwaith. Yn y bôn anelwn at gynnig addysg blentyn ganolog (hynny yw, lle anogir plentyn i feithrin sgiliau ymchwilio, i feddwl yn rhesymegol, i ddatrys problemau a dehongli canlyniadau, ynghyd â gallu mynegi ei syniadau'n eglur.

Ni olyga hyn ein bod yn anwybyddu'r angen am y dulliau dysgu mwy disgybledig. Cydnabyddwn mae'n ffurfiol y dylid dysgu rhai agweddau o'r gwaith, fel bo sylfaen gadarn yn cael ei gosod.

Ein hamcan yn fras yw taro cydbwysedd rhwng y ddau ddull sy'n ein galluogi i gynnig yr addysg orau bosibl i'r plant.

Trefn y dydd:

Yn y bore byddwn yn canolbwyntio ar waith Iaith (Cymraeg a Saesneg) a Mathemateg sef tri o'r pedwar pwnc craidd.

Yn y prynhawn byddwn yn gwau y pynciau craidd eraill i mewn i thema arbennig e.e. Myfi fy hun, Y Stryd, Teithio, Cestyll. Gyda dyfodiad y Rhaglen Astudio Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol, rhoddir pwyslais mawr i gymhwyso sgiliau llythrennedd a rhifedd oddi mewn i'r holl bynciau a threfnu gweithgareddau sydd yn ymgorffori'r gofynion yn llawn.

IAITH

Yn unol â Pholisi Iaith Awdurdod Addysg Gwynedd, gan gynnwys egwyddorion 'Y Siarter Iaith' rhoddir safle cyfartal i ddysgu Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd yn yr ysgol hon. Y nod sefydlog sydd gennym ydyw ceisio sicrhau fod pob disgybl **yn hollol rhugl yn y ddwy iaith** erbyn diwedd ei yrfa yn yr ysgol gynradd.

Caiff y plant eu hannog i ddarllen amrediad o lyfrau ffeithiol a ffuglen. Yn ogystal cânt y profiadau o siarad a gwrando mewn gwahanol sefyllfaoedd ac ysgrifennu i ddibenion gwahanol.

Pan ddaw plentyn a elwir yn hwyrdyfodiad i mewn i'r ysgol h.y. plentyn nad yw'n siarad Cymraeg o gwbl yna cynigir cwrs brys o dymor iddynt yn y 'Ganolfan Hwyrdyfoidiaid' yng Nghaernarfon. Yno bydd y plentyn yn rhan o grŵp dysgu bychan a bydd yn cael ei ddysgu gan

arbenigwyr mewn dysgu Cymraeg fel ail iaith. Yn ystod y tymor y bydd y plant yn ei dreulio yn y ganolfan byddant yn dilyn y cwricwlwm ysgol arferol yn ogystal â chael dysgu Cymraeg.

Cludir y plant i'r canolfannau yn rhad ac am ddim.

SIARTER IAITH GYMRAEG YSGOLION CYNRADD GWYNEDD

Mae Ysgol Pen-y-bryn yn hyrwyddo nod y Siarter iaith sef "arwain at gynnydd yn nefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg. Mewn gair, cael y plant i siarad Cymraeg." Mae'r ysgol wedi ei achredu gyda'r wobwr Aur.

Gweledigaeth Ysgol Pen-y-bryn yw y bydd pob plentyn yn rhugl yn y Gymraeg erbyn iddynt adael yr ysgol gan ei defnyddio'n naturiol i gyfathrebu o ddydd i ddydd ac ymfalchio yn ein traddodiadau a'n hetifeddiaeth Cymreig.

Mae pob dosbarth yn defnyddio siart 'Dringo i gopa'r Wyddfa' i gofnodi cynnydd yn nefnydd cymdeithasol y disgyblion o'r Gymraeg. Mae 5 cam tua'r copa:

1. Gallu gofyn ac ateb cwestiwn yn y Gymraeg.
2. Siarad Cymraeg gyda ffrindiau bob amser yn y dosbarth.
3. Siarad Cymraeg gyda ffrindiau bob amser ar yr iard.
4. Siarad Cymraeg yn gywir.
5. Siarad Cymraeg yn rhugl a graenus.

MATHEMATEG

Seilir gwaith Mathemateg yr ysgol hon yn bennaf ar Gynllun Mathemateg Cynnal a disgwyliadau'r Fframwaith Rhifedd a'r Rhaglen astudio newydd. Yn y gwersi cyflwynir nifer o strategaethau i'r plant y gallent eu defnyddio i ddatrys un math o broblem. Mae cryn bwyslais ar 'waith pen' fel y dewis cyntaf i ateb problem – sawl un ohonom ni sy'n eistedd lawr efo pensil i 'wneud sym' ? Un canlyniad o hyn, wrth gwrs, yw llai o waith ffurfiol yn llyfrau'r plant. Mae'r plant yn canolbwyntio ar weithgaredd ar ganol y wers cyn dod yn ol at ei gilydd i drafod beth a ddysgwyd.



Mae gofynion y Rhaglen Astudio hefyd yn y maes hwn yn mynnu llawer o bwyslais ar waith ymarferol, yn enwedig mathemateg ymchwiliol. I'r rhieni/gofalwyr hynny sy'n cofio eu dyddiau ysgol eu hunain, pan weithid tudalen ar ol tudalen o 'syms' gan lenwi dau neu dri llyfr y flwyddyn, efallai y bydd hi'n edrych braidd yn rhyfedd ar y dechrau pan na fydd eu plant yn dilyn yr un llwybrau. Yr hyn a ddaw yn amlwg bellach yw fod plant yn cael llawer mwy o bleser o'r pwnc, ac o'r herwydd yn ennill dealltwriaeth well o'r hanner ohono. Mae'r pwyslais ar gymwysiadau defnyddiol ac ymarferol ar fathemateg ac ar gael boddhad ohono mewn sefyllfaedd naturiol.

Nid bod hyn yn golygu nad ydym ni'n cydnabod gwerth hen ddulliau fel dysgu'r tablau ac yn y blaen. Hebbynt nid â'r plant ymhell iawn gyda'u gwaith. Dyma faes lle gallwch chi fod o gryn gymorth i'r plentyn a'r ysgol drwy helpu eich plentyn i DDYSGU TABLAU. Mae gwybod tablau yn agor sawl drws ar gyfer datrys problemau.

Llawn cyn bwysiced hefyd, fel gyda'r gwaith iaith yntau, ydyw pwysigrwydd cyflwyno'r gwaith yn eglur a manwl, a hefyd fel mater o falchder personol o fedru gwneud gwaith hyd eithaf eu gallu.

GWYDDONIAETH

Cyflawnir y gwaith gwyddoniaeth fel rhan o astudiaeth ehangach neu ran o brosiect y dosbarth. Drwy waith gwyddoniaeth disgwylir i'r plentyn ymdopi â sgiliau sylwi a manylu, rhoi cynnig ar ddehongli eu sylwadau a chreu arbrofion i bwysu a mesur eu damcaniaeth. Bydd gwaith paratoi



manwl i sicrhau fod y gwaith a gyflwynir o fewn themau'r dosbarthiadau yn ateb gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol 2008.

DYLUNIO A THECHNOLEG

Mae'r maes hwn wedi dod yn llawer mwy blaenllaw yn yr ysgolion cynradd yn ddiweddar ac yn statudol yn ôl gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol 2008.

Bydd llawer o'r gwaith technoleg yn defnyddio pethau wedi eu taflu o'r cartrefi - fel hen boteli hylif golchi llestri, cartonau iogwrt a'u tebyg. Bydd y plant hefyd yn cael cyfle i ddefnyddio pethau fel setiau adeiladu, motorau trydan a dyfeisiadau a reolir gan gyfrifiaduron yn ogystal ag ymwneud a thechnoleg bwyd. Mae ystafelloedd wedi eu haddasu ar lawr uchaf yr ysgol yn bwrpasol ar gyfer y gwaith hwn gyda adran lan ar gyfer coginio. Eto bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud fel rhan o thema a fydd yn ymdrin â nifer o wahanol agweddau o'r cwricwlwm.



Y DYNIAETHAU (HANES A DAEARYDDIAETH) AC ADDYSG GREFYDDOL

Fel rhan o'r gwaith themau eto y cyflwynir y dyniaethau a'n hamcanion yma yw datblygu plant sy'n mynd i dyfu i fod yn aelodau cyflawn o'u cymunedau ac yn oedolion sy'n mynd i gyfrannu'n gadarnhaol tuag at ddyfodol eu cymuned ac, ar yr un pryd i feithrin parch tuag at yr amrywiaeth o werthoedd a chymdeithasau gwahanol sydd i'w cael yn y Byd.

Drwy astudiaethau daearyddol ceisir cyflwyno fframwaith o wybodaeth am leoliad a lleoedd ac am nodweddion pwysig cyfundrefnau ffisegol y Ddaear ac effaith dyn ar ei amgylchfyd. Rhoi ymdeimlad o'r gorffennol a ffordd o fyw yw ein hamcan wrth gyflwyno hanes i'n plant. Ceisir datblygu ynddynt ymdeimlad o amser, dilyniant, newid a chronoleg i'w cael i sylweddoli sut mae'r gorffennol wedi ffurfio'r gymdeithas a'r byd y maent yn rhan ohono a hefyd i gael perspectif o'r presennol - ei werthoedd, ei arferion a'i gysylltiadau.

ADDYSG GREFYDDOL

Nid oes gan yr ysgol gysylltiadau crefyddol uniongyrchol na ffurfiol, ond mae pob croeso i offeiriaid a gweinidogion lleol yn yr ysgol.

Ceir gwasanaeth o gyd-addoli bob dydd (yn y dosbarth ar ddydd Llun) a bydd y plant yn cymryd rhan mewn gwasanaethau grŵp yn rheolaidd.

Wrth gyflwyno Addysg Grefyddol ein hamcan yw i feithrin y plant i werthfawrogi dimensiwn crefyddol bywyd a deall yr hyn y mae cymryd crefydd o ddifrif yn ei olygu. Yn ein diwylliant ni, canolbwytir yn bennaf ar Gristnogaeth, ond bwriedir rhoi sylw yn ogystal i grefyddau eraill a datblygu parch tuag at y rhai sy'n eu coleddu.

CERDDORIAETH

Credwn yn gryf fod gwerth i wneud cerddoriaeth fesul cam, yn hytrach na rhoi cyfres o wersi lle nad yw'r plant yn gwneud dim mwy na 'chanu cymunedol' er bod lle i hynny yn ein cynllun cerdd. Credwn hefyd fod gan bob plentyn rhyw gymaint o allu cerddorol a dyna pam y byddwn yn anelu yn y dyfodol i gynnig profiadau dwfn a bywiocaol yn y maes hwn i bob plentyn yn yr ysgol. Bydd cyfle i ddatblygu sgiliau a chysyniadau cerddoriaeth drwy brofiad o berfformio, gwranddo a chyfansoddi.



ADDYSG GORFFOROL

Wrth gyflwyno'r pwnc hwn sy'n **statudol i bob plentyn** yn yr ysgol ceisir cynllunio rhaglen ddysgu sy'n arwain at weithgareddau a phrofiadau egniol, pwrpasol a rheolaidd sy'n galluogi pob plentyn i brofi mwynhad a llwyddiant.

Gan nad oes gan yr ysgol gae chwarae ei hun manteisir ar y cyfle pan mae'n bosibl o gael defnyddio y cae amlbwrpas yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Yn ychwanegol caiff pob dosbarth gyfle i dderbyn gwersi Addysg Gorfforol ym Mhlas Ffrancon. Yno cyflwynir amrywiaeth o sgiliau chwaraeon i'r plant. Mae'r ysgol yn ffodus o gael neuadd ac offer addas i gyflwyno gymnasteg a dawns i'r plant i gyd.



Trefnir cwrs o wersi nofio ym mhwl nofio Bangor i flynyddoedd 3, 4, 5 a 6. Anelir at gael pob plentyn yn nofio 25m cyn diwedd Blwyddyn 5. Bydd plant blwyddyn 6 yn cael cyfle i ennill Tystysgrif Cwricwlwm Cenedlaethol Nofio yn ystod tymor yr haf.

Unwaith y flwyddyn rhoir y cynnig i'r plant hynaf sy'n aelodau'r Urdd i fynd i Wersyll yr Urdd Glanllyn gyda'r athrawon i fwynhau penwythnos o weithgareddau awyr agored fel canwio, hwylio a rhedeg traws gwlad.

TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU

Mae'r rhan hwn o'r cwricwlwm yn cael ei wau i mewn i waith thematig. Rydym yn sicrhau bod pob plentyn yn cael y cyfle i weithio, creu, chwarae a defnyddio cyfrifiaduron mewn ffordd ymarferol. Yn ystod eu gyrfa yn yr ysgol cant y cyfle ddefnyddio amrywiaeth o galedwedd a meddalwedd yn cynnwys prosesu geiriau, llunio, trin data, a rheoli. Mae gan yr ysgol lawer o gyfrifiaduron, gydag un ystafell gyda 23 cyfrifiadur ynddi yn ogystal â bwrdd gwyn rhyngweithiol ym mhob dosbarth. Mae pob cyfrifiadur wedi ei gysylltu â'r rhyngwrdd. Erbyn hyn mae 11 i pad gyda'r appiau addysgol arnynt i'w defnyddio fel rhan naturiol o wersi bob dydd.



CELF

Wrth gyflwyno'r maes hwn cred yr ysgol ei bod yn bwysig rhoi cyfle i'r plant weithio gyda llawer o wahanol ddeunyddiau ac mewn gwahanol ddulliau. Pwysleisir parchu gwaith ac ymdrechion eraill.



Dogfennau'r Cwricwlwm

Mae croeso i'r rhieni/gofalwyr weld y dogfennau sy'n ymwneud â chwricwlwm yr ysgol ond iddynt wneud trefniadau rhesymol â'r Pennaeth i wneud hynny.

Meysydd Eraill

ADDYSG BERSONOL A CHYMDEITHASOL (gweler hefyd 'Addysg Rhyw')

Gan fod hwn yn bwnc statudol bellach, ystyriwn mai'n lle ni ydyw dysgu i'r plant sut mae dygymod a'u datblygiad corfforol ac emosiynol personol eu hunain, yn hytrach na phrysuru'r broses o aeddfedu. Byddwn yn annog rhieni/gofalwyr i chwarae rhan allweddol yn y maes cwricwlwm hwn, drwy gynnig cefnogaeth ffurfiol drwy gydweithredu gydag Ymwelydd Iechyd yr ardal, a chefnogaeth anffurfiol drwy gynghori pan fydd angen hynny.

Rydym hefyd yn hyrwyddo cyfle cyfartal, yn hyrwyddo cysylltiadau da rhwng aelodau gwahanol grwpiau a chymunedau ethnig, diwylliannol a chrefyddol- yn benodol drwy ein cyswllt agos ag Ysgolion yn Surabaya, Indonesia.

ASESU

Mae asesu yn broses barhaus sy'n digwydd o ddydd i ddydd yn yr ysgol. Bydd yr athrawon yn asesu plant yn anffurfiol drwy'r amser, a'r plant yn asesu eu gwaith eu hunain drwy'r amser gan gofnodi asesiadau ffurfiol yn ôl amserlen dymhorol.

Ar ddiwedd blwyddyn ysgol bydd yr athrawon yn crynhoi'r wybodaeth a rhoi asesiad diwedd blwyddyn i bob plentyn. Defnyddir y profion cenedlaethol i gadarnhau barn yr athrawon ac i roi gwybodaeth i'r ysgol ar y camau sydd angen eu cymryd i wella.

Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (bl. 6) cesglir tystiolaeth o dasgau safonol yn gyson ar gyfer asesu. Bydd canlyniadau rhain ynghyd ag adroddiad llawn o lefel cyrhaeddiad y disgyblion yn y gwahanol bynciau yn cael eu paratoi ar gyfer y rhieni/gofalwyr perthnasol erbyn diwedd y

flwyddyn addysgol.

Canlyniadau 2017 i'w gweld yn Atodiad 2

Trosglwyddir y canlyniadau a'r asesiadau athro i'r Ysgol Uwchradd fel bod y broses asesu'n gallu parhau'n rhwydd.

Yn fuan yn nhydd yr hydref bydd canlyniadau'r asesiadau blwyddyn 6 a hefyd ganrannau presenoldeb yr ysgol ar gael i chwi yn yr ysgol drwy gysylltu â'r Pennaeth.

PLANT A CHANDDYNT ANGHENION ADDYSGOL YCHWANEGOL

Yn yr ysgol hon fel pob un arall, gall fod gennym blant gydag anghenion addysgol ychwanegol. Ni olyga hynny o angenrheidrwydd nad ydyw'r plant hyn yn blant galluog, neu fod eu problem yn un barhaol. Gall nifer o ffactorau effeithio ar ddatblygiad addysgol plentyn, ac mae hi'n bwysig i rieni/gofalwyr ddweud wrthym ni am unrhyw beth a allai effeithio ar ddatblygiad addysg eu plant. Mae'r ddeddfwriaeth ddiweddar wedi ffurfioli canllawiau a ganlynir gennym ni, ac mae'n bwysig i rieni/gofalwyr fod yn ymwybodol ohonynt a sut yr ydym ni'n ymdrin â hwy.

Ein polisi ni yw gadael i rieni/gofalwyr gael gwybod am bob datblygiad (neu ddiffyg datblygiad) a welwn yn eu plant, o ran gwaith ac ymddygiad. Os credwn fod unrhyw broblem, yna byddwn yn dweud wrth rieni/gofalwyr y plentyn hwnnw yn ddiymdroi. Erbyn hyn, mae'r gyfraith yn mynnu bod rhieni/gofalwyr yn cymryd rhan ar bob cam o unrhyw broblem addysgol, yn ddiagnosis a thriniaeth. Synnwyr cyffredin yw hynny, ond rhaid pwysleisio bod rhaid wrth yr un synnwyr cyffredin pan fydd rhieni/gofalwyr yn ymwybodol o rywbeth y tu allan i'r ysgol y credent sy'n rhwystr i ddatblygiad eu plentyn.

Os daw problem i'r golwg, bydd yr ysgol yn trefnu cyfarfod gyda rhieni/gofalwyr y plentyn dan sylw, yr athro dosbarth a'r Cyd-lynydd AAA/Pennaeth.. Cyfarfod hollol anffurfiol fydd hwn, ac yn sgil y drafodaeth honno y byddwn yn penderfynu a fydd arnom eisiau cymorth arbenigol a'i pheidio. Darperir mewn ymgynghoriad â'r athro dosbarth, y rhiant ar plentyn, Gynllun Addysg Unigol tymor byr a hir a llunnir rhaglenni astudio arbennig ar gyfer anghenion unigol y plentyn. Rhennir y baich gweinyddu rhwng Cyd-gysylltwr Anghenion Arbennig yr ysgol a'r athro/athrawes dosbarth. Os na fydd y broses hon yn llwyddiannus yna cyfeirir y plentyn i sylw'r Seicolegydd Addysg ac wedi iddo/iddi wneud asesiad pellach gall gynghori ynglŷn â chymorth pellach a all fod ar gael.

Dan amgylchiadau o'r fath, rhaid inni ddibynnu ar gydweithredu agos a rhieni/gofalwyr er mwyn sicrhau bod pob gwaith ychwanegol yn cael ei arolygu'n iawn gartref.

O bryd i'w gilydd bydd rhieni/gofalwyr yn sôn wrthym am drafferthion disgyblaeth ddifrifol yn y cartref, a allai fod yn gwbl wahanol i'r hyn y maent wedi arfer ag ef gyda'u plentyn. Fel arfer, gellir adnabod y rhesymau drostynt ar ol ychydig o drafod, ond bob hyn a hyn byddwn mewn dryswch llwyr fel y rhieni/gofalwyr, ac yn y niwl am beth i'w wneud er y gorau. Dyma sefyllfa gwbl anfodddhaol i'r cartref a'r ysgol fel ei gilydd. Ein profiad yn y gorffennol yw mai cael cynhorthwy'r Gwasanaeth Cynghori Plant ydyw'r ateb yn aml. Mae'r bobl hyn yn fedrus iawn wrth gael at wraidd problemau plant, ac maent wedi cynnig cymorth gwerthfawr yn y gorffennol.

Adroddiad ar y Polisi Anghenion Addysgol Arbennig

Cyflawnwyd yr isod yn 2016-17

1. Darparwyd hyfforddiant i gyd gysylltydd ADY yr ysgol (Mrs. C. Lloyd) gan yr Awdurdod, yn ogystal a chefnogi cymorthyddion.
2. Defnyddiwyd arian a ddatganolwyd i ysgolion ynghyd ag arian wrth gefn i gyflogi cymhorthyddion ADY i dargedu anghenion penodol ar hyd y flwyddyn.
3. Penodwyd aelod o'r Corff Llywodraethu, Orina Pritchard, i fod â chyfrifoldeb am Addysg Arbennig yn yr ysgol. Ymwelodd y llywodraethwyr i gael golwg ar systemau a staff yr ysgol yn cael eu gweithredu.
4. Prynwyd adnoddau darllen a gwrando yn y ddwy iaith i'w defnyddio gyda'r plant dan sylw.
5. Nodwyd bod yr holl gefnogaeth a ddarparwyd wedi cael effaith rhagorol ar gynnydd y disgyblion.

Y 'CWRICWLWM CUDD'

Ar wahân i arbenigedd unigol y staff dysgu, dyma'r peth sy'n bennaf gyfrifol am roi i bob ysgol ei chymeriad unigol ac unigryw. Dyma'r rhan o'r cwricwlwm na ellir ei osod o dan benawdau - yr athroniaeth y tu cefn i'r dysgu ac ysgogiadau'r staff, ynghyd â'r ffordd y mae polisiâu'r ysgol yn ystyried natur y gymdeithas a wasanaethir ganddi - dyna sy'n rhoi i ysgol ei chymeriad ei hun.

Yma yn Ysgol Pen-y-bryn, ceisiwn wneud nifer o bethau nad ydynt yn rhan o'r cwricwlwm ffurfiol, pethau sy'n bwysig mewn bywyd yn ein meddwl ni. Credwn ein bod yma i roi gwasanaeth mwy na'r amcanion academiaidd ar ben eu hunain (er bod y pwysau ac amser yr ysgol yn gwneud hyn yn fwyfwy anodd). Credwn y dylai pob plentyn allu uniaethu ei hun â'i ysgol - ac y dylai fedru gwneud hynny, nid yn unig drwy'r wisg ysgol sydd amdano, ond drwy agwedd yr ysgol at y byd mawr y tu allan. I'r diben hwn ceisiwn feithrin cysylltiadau â'n cymuned a busnesau lleol, yn enwedig â'r ysgol fabanod (Abercaseg) ac ysgolion eraill y dalgylch, yr henoed a'r anabl.

Yr ydym yn ymwybodol iawn fod ein plant yn gorfod wynebu ansicrwydd mawr yn y byd sydd ohoni hyd yn oed yn eu bywydau ieuanc hwy ambell waith ac o'r herwydd teimlwn ei bod yn holl bwysig i ddysgu'n plant i feddwl drostynt eu hunain ac i ninnau gynnig awyrgylch gartrefol a chariadus iddynt..

Rhaid hefyd gwneud y plant yn ymwybodol o'u Cymreictod (os ydynt yn Gymry). Os nad ydynt yn Gymry, dylid eu gwneud yn ymwybodol o'r hyn sydd gan y gymdeithas Gymreig a'r diwylliant i'w gynnig iddynt o ran cyfoethogi eu profiadau. Gan anelu at y pethau hyn mae'r ysgol hon yn ceisio creu awyrgylch sy'n adlewyrchu balchder yn ei chymuned.

Y Rhaglen Astudio Llythrennedd a Rhifedd

Ers Medi 2015 mae disgwyliadau y fframwaith uchod wedi codi disgwyliadau pob athro/athrawes ar gyfer cynnwys sgiliau llythrennedd a rhifedd uchel oddi mewn i bob maes yn y cwricwlwm, a hynny yn ei dro wedi codi safonau.

Llywodraethwyr yr Ysgol 2016-2017 School Governors

AELODAETH O'R CORFF LLYWODRAETHOL YSGOLION PEN-Y-BRYN AC ABERCASEG

**YSGOL Pen-y-bryn, Bethesda
ACADEMIC YEAR****BLWYDDYN ADDYSGOL 2016-2017**

ENW	SWYDDOGAETH A CHATEGORI e.e. Cadeirydd, Cynrychiolydd AAA, Cynrychiolydd Rhieni, a.y.b.	DYDDIAD CYCHWYN (fel llywodraethwr) Hyd tymor llywodraethwyr 4 mlynedd	DYDDIAD GORFFEN (wedi'r cyfnod o 4 blynedd)
Cari Griffiths	Rhieni	02/01/17	31/12/20
Gwyndaf Owen (Is-gadeirydd)	Rhieni	02/01/17	31/12/20
Manon Williams	Rhieni	02/01/17	31/12/20
Emma Pritchard	Rhieni	02/01/17	31/12/20
Einir Williams*	Awdurdod	01/07/17	21/06/21
Ann Williams	Awdurdod	02/01/17	31/12/20
Rheinallt Puw	Awdurdod	02/01/17	31/12/20
Linda Brown	Awdurdod	02/01/17	31/12/20
Marian Arman	Cymunedol	02/01/17	31/12/20

Janet Jones	Cymunedol	02/01/17	31/12/20
Orina Pritchard (Cadeirydd)	Cymunedol	02/01/17	31/12/20
Hedd Rhys	Cymunedol	02/01/17	31/12/20
Mary Jones	Cyngor Cymuned	02/01/17	31/12/20
Yvonne Griffiths	Athrawon	02/01/17	31/08/18
Ffion Jones	Athrawon	02/01/17	31/08/18
Edwina Griffith	Staff Ategol	02/01/17	31/08/18
Caryl Griffith	Staff Ategol	02/01/17	31/08/18
Ceren Lloyd	Pennaeth	-	-


Ysgol Penybryn
Gwynedd

Rhif yr ALI/Ysgol: 661/2028

Gwybodaeth gymharol yr ysgol: Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2017
Cyfnod Allweddol 2

Canran y bechgyn, merched a disgyblion sy'n cyflawni'r lefel disgwyliedig o leiaf (Lefel 4+):

	Bechgyn			Merched			Disgyblion		
	Ysgol 2017	ALI 2016	Cymru 2016	Ysgol 2017	ALI 2016	Cymru 2016	Ysgol 2017	ALI 2016	Cymru 2016
Saesneg	94	89	88	100	93	93	98	91	90
Cymraeg	100	86	88	100	92	93	100	89	91
Mathemateg	94	90	89	100	93	93	98	92	91
Gwyddoniaeth	94	92	90	100	94	94	98	93	92
DPC	94	88	86	100	92	91	98	90	89

**Adroddiad ar brif dargedau'r ysgol am 2016 -17**
Report on the school's main targets for 2016-17**Blaenoriaeth 1/ target 1****Blaenoriaeth 1: Codi safonau rhifedd ymhellach gyda ffocws ar wella gallu disgyblion i ddehongli a datrys problemau./to improve further the pupils ability in mathematics, to understand and solve problems.**

Cyflawnwyd y flaenoriaeth yn llawn a arweiniodd at ganlyniadau ardderchog i bob plentyn / all tasks in the target were fully implemented that resulted in all children making excellent progress in KS2.

Canlyniadau profion yn cadarnhau cyrraedd y deilliannau.

Blaenoriaeth 2 Target 2: Codi sfaonau llythrennedd:

Parhau i ddatblygu ymhellach uwch sgiliau darllen ymhob dosbarth.

Datblygu ymhellach ysgrifennu estynedig ymhob dosbarth.

Canlyniadau diwedd CA2 a phrofion yn adlewyrchu cyrraedd y deilliannau ar y lefelau uwch..

Blaenoriaeth 3 /Target 3: gwella sgiliau TGCh drwy'r ysgol ymhellach er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn datblygu cynhwysedd digidiol briodol yn unol a gïofynion Framwaith Cymhwysedd digidol 2016.

- cyflawnwyd y deilliannau a'r targedau

**Blaenoriaeth 4 /target 4:Gweithredu cynlluniau, prosiectau, meysydd a gweithgareddau sydd yn canolbwyntio ar lês disgyblion a chau'r bwch./
To implement plans, projects and all areas compassing children's welfare and health.**

Datblygu'r dysgwyr yn emosiynol, yn foesol, yn ysbrydol ac yn gymdeithasol drwy amrywiaeth helaeth o brofiadau a hynny'n aml yng ngofal grwpiau o'r dysgwyr- Plant Pesda, Cyngor Ysgol ,Grwp Gwyrdd, Cyngor Chwaraeon.

- gweithredwyd y blaenoriaethau yn llawn ac effeithiol iawn/ all targets were completed successfully.

Blaenoriaeth 6: Arweinyddiaeth a Rheolaeth/Leadership and effective management: parhau i wella strwythurau arwain a rheoli yr ysgol trwy ddatblygu rolau arwain ac atebolrwydd staff a llywodraethwyr.

arweinyddiarth ganol yr ysgol yn datblygu ymhellach.

Cyd lynwyr yn parhau i ddatblygu eu sgiliau dadansoddi data a monitro.

ansawdd hunanarfarnu yn yr ysgol a'r adroddiad hunanarfarnu yn gwella gan gynnwys mewnbwn gan y gweithlu cyfan.

CLI yn weithredol mewn prosesau.

Gweithredwyd y tasgau yn dda./All **tasks were developed well.**

Prif dargedau'r ysgol am y flwyddyn 2017-18 *Principal school targets for the year 2017-18*

Blaenoriaeth 1: Rhifedd- i ddatblygu sytemau a strwythurau mathemateg pen drwy'r ddwy ysgol. I ddefnyddio a chymhwyso'r wybodaeth ymhob agwedd o'r cwricwlwm newydd.

Blaenoriaeth 2: Llythrennedd- i ddatblygu ymhellach sgiliau llafaredd , darllen ac ysgrifennu a'u cymhwyso ymhob rhan o'r cwricwlwm newydd.

Blaenoriaeth 3: TGCH: defnyddio a chymhwyso sgiliau TGCH ac ymateb i ddisgwyliadau'r Fframwaith Cymnhwysedd Ddigidol.

Blaenoriaeth 4: Lles a llesiant: parhau i weithredu cwricwlwm sydd yn rhoi cyfleoedd uchelgeisiol ac effeithiol sydd yn rhoi blaenoriaeth i les a llesiant pob disgybl a hynny'n aml trwy lais y plentyn.

Blaenoriaeth 5:Arweinyddiaeth a Rheolaeth: datblygu a mireinio sgiliau arwain a rheoli pob aelod o staff a'r llywodraethwyr.

